

I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Pentrecelyn dydd Sadwrn, Gorffennaf 7fed. Bydd eisteddiad o'r Henaduriaeth yn hwyr y prynhawn, ac oedfa gyhoeddus fin nos pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch am hir wasanaeth, a blaenoriaid newydd yn cael eu hordeinio. (Amser y ddaau gyfarfod i'w gadarnhau.)
- **CYFARFODYDD CYHOEDDUS CYMANFA GYFFREDINOL EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU** yng Nghapel y Groes, Wrecsam, Gorffennaf 9fed-11eg.
 - Nos Lun (9fed) am 7.30 - Gwasanaeth Cymun a Choffâd. Pregethir gan y Parch. Ian Sims, Llanelli.
 - Dydd Mawrth (10fed) am 11.45 – Y Ddarlith Davies. Darlithydd: Y Parch Wyn Rhys Morris, Aberystwyth. Testun: Rhamantiaeth Hanesyddol a Gwleidyddiaeth Eglwysig yng Nghymru'r 19fed Ganrif.
 - Nos Fawrth (10fed) am 7.30 – Araith Ymadawol y Llywydd, y Parch. Brian Huw Jones, Prestatyn a Throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch. Brian Matthews, Wrecsam.
 - Dydd Mercher (11eg) am 11.45 – Darlith y Gymdeithas Hanes. Darlithydd: Dr Gethin H. Matthews. Testun: *Angels, Doves and Minerva: Reading the memorials to the Great War in Welsh Presbyterian chapels.*
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Gorffennaf 29ain am 10.30 a chyfle i ddiolch i Gwion Dafydd am ei gyfraniad arbennig inni yma ym Mro Aled. Mwy o fanylion i ddilyn.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darllenid Wythnos Nesaf

Daniel 7:13-14 (BCND tud.811 / BCN tud.739)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24^{ain} Mehefin 2018

Darllenid y Dydd

Iago 5:7-11

(BCND tud.254 / BCN tud.233)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i oedfa arbennig Sul y Fro a'r gweithgareddau hwyliog wedyn os fyddwch chi'n aros. Edrychwn ymlaen at gael moli'r Arglwydd a mwynhau cwmni'n gilydd mewn tywydd braf gobeithio! Wrth i ni wneud hynny, gofynnwn am gymorth Ysbryd Duw i sylweddoli mor wych yw'r Arglwydd Iesu Grist – yr Un y bydd pob glin yn plygu iddo 'yn y nefoedd, ar y ddaear a than y ddaear'. (Philipiadau 2:10 Beibl.net)

Pa mor amyneddgar ydych chi fel person? Neidio i gasgliadau a chyrraedd pen eich tennyn wrth orfod aros mewn ciw, neu ydych chi'n un sy'n cymryd pethau'n araf gan ddisgwyl yn hamddenol i weld sut mae sefyllfaoedd yn datblygu? I roi prawf ar eich amynedd dyma gwestiwn penodol – pa mor hir fydddech chi'n fodlon disgwyl er mwyn i dudalen we newydd ymddangos ar eich cyfrifiadur? Efallai nad ydym ni yn ardaloedd gwledig Cymru y bobl orau i'w holi am wasanaeth rhyngwrwyd effeithiol, ond yn ôl ystadegau, mae siopwyr ar y we yn barod i ddisgwyl am ddwy eiliad i dudalen newydd agor. Os yw'r oedi'n hirach na hynny maent yn debygol o symud at gwmni arall i gael yr hyn y maent yn chwilio amdano ar frys!!

Yn ystod ein cyfnod ni o gael popeth ar amrantiad ar ein cyfrifiadur neu'n ffôn, peth digon anarferol yw gorfod disgwyl am unrhyw beth, ond mae bod yn amyneddgar yn un o'r rhinweddau sy'n cael ei grybwyll yn aml yn y Beibl. Yn gyntaf, gwelwn mor rhyfeddol o amyneddgar yw Duw hefo'i bobl. Er y troi cefn a'r gwrthryfela cyson, mae'r Arglwydd yn parhau'n amyneddgar gan alw arnynt i droi cefn ar eu pechod dro ar ôl tro trwy'r proffwydi. Ac wedi hyn oll, mae Duw yn rhoi un cyfle arall i'r ddynoliaeth trwy roi ei Fab yn aberth dros bechodau, y cyfiawn yn marw dros yr anghyfiawn i'w dwyn hwy at Dduw. (1 Pedr 3:18) Mae Pedr yn mynd mor bell â dweud: 'Dylech weld fod amynedd yr Arglwydd yn rhoi cyfle i chi gael eich achub.' (2 Pedr 3:15 Beibl.net)

Ac oherwydd hynny, nid yw'n syndod fod y Testament Newydd yn disgwyl i Gristnogion arddangos amynedd yn eu bywydau hwythau hefyd. Amynedd sy'n mynd law yn llaw â ffydd yn yr Arglwydd sy'n gysur ac yn gynhaliath i'w bobl hyd yn oed yn y stormydd mwyaf brawychus. Does neb ohonom yn gwybod beth fydd yn dod nesaf, ond gall y Cristion ddibynnu ar addewidion Duw o ddydd i ddydd gan edrych ymlaen yn ddisgwylgar at ddychweliad Iesu a'r gogoniant o'i weld fel y mae am dragwyddoldeb. 'Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur; ond yna cawn weld wyneb yn wyneb.' (1 Corinthiaid 13:12)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 24^{ain}

SUL Y FRO

Bydd oedfa i'r teulu cyfan
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

am 10.30 y bore

Fe wneir casgliad yn ystod yr oedfa tuag at Gymdeithas Alzheimer's Cymru.

Wedi'r oedfa, bydd mochyn wedi ei rostio a phwddin
ac amser i gymdeithasu yng Nghae Chwarae, Ffordd Gogor, Llansannan.

Bydd yno hefyd gastell bownsio, cyfle i chwarae bowls,
a chwaraeon i'r teulu cyfan.

Dewch ag esgidiau addas er mwyn ymuno yn yr hwyl.

*(Os na fydd y tywydd yn caniatáu inni fod yn yr awyr agored, mae trefniadau
wedi eu gwneud inni fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.)*

Pris y cinio: £5 i oedolion a £2 i blant ysgol gynradd.

Mercher – 27^{ain} ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat am 7.30 (*Ileoliad i'w gadarnhau*).

➤ **Torri Syched y merched** – seiat yn Heulfryn am 7.30.

Iau – 28^{ain} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion)
ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.

Sul nesaf – 1^{af} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan
Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng
Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn
Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

Mercher – 27^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion
(870656) **HEDDIW (27^{ain})**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd
Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion
am 11.10.

➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00.
Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00.
Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn
Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn
Berain am 10.00.

EGLWYSI CYMRU YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERDYDD AWST 2018

Eleni eto bydd Cytûn yn cydlynu Pabell Eglwysi Cymru ar ran Eglwysi Ynghyd yng
Nghymru. Mae gwahoddiad i ni i fynd i'r babell i ymuno yn yr addoliad am 11.00
bob bore, i wrando ar gerddoriaeth, trafodaethau a chyflwyniadau, ac i glywed
mwy am waith yr eglwysi. Bydd rhai o'r trafodaethau a'r cyflwyniadau yn digwydd
yn adeilad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd, CF10 5FH, dafliaid carreg o'r maes. Bydd rhaglen lawn ar gael ar wefan
Cytûn, ac yn y babell ar y maes (rhif 141-142).

Yn ogystal â hyn, bydd **tocynnau ar gyfer yr oedfa** i'w cael am ddim trwy
gysylltu â Cytûn. Gallwch archebu hyd at ddau docyn trwy ddilyn y ddolen i'r
ffurflen gais ar wefan Cytûn: www.cytun.org.uk, neu gallwch ffonio 02920
464204. (Bydd y tocynnau'n cael eu dosbarthu o swyddfa'r Eisteddfod, ac nid o
swyddfa Cytûn.)

**Mae'n hanfodol fod unrhyw un sy'n dymuno archebu tocynnau am ddim ar
gyfer yr oedfa yn gwneud yn siŵr fod y ffurflen gais wedi
cyrraedd Cytûn CYN 30 MEHEFIN 2018.** Ni fydd yn bosib archebu
tocynnau ar ôl y dyddiad hwn. Nifer cyfyngedig o docynnau sydd
ar gael, a byddant yn cael eu dosbarthu yn ôl egwyddor y cyntaf
i'r felin. Ni fydd tocyn diwrnod/wythnos yr Eisteddfod yn
gwarantu mynediad i'r oedfa; bydd yn rhaid cael tocyn arbennig.

